

SGILIAU BYW'N ANNIBYNNOL

Mae Sgiliau Byw'n Annibynnol (SBA) wedi'u dylunio ar gyfer myfyrwyr nad ydynt yn barod am addysg prif lif.

Caiff rhaglenni eu teilwra i fodloni anghenion dysgwyr unigol, gan weithio gyda'i galluedd a'u dyheadau. Byddwch yn datblygu'r sgiliau sy'n canolbwyntio ar iechyd a lles, cyflogadwyedd, byw'n annibynnol a chynhwysiad cymunedol.

Mae nifer o'n dysgwyr SBA yn mynd ymlaen i astudio cwrs galwedigaethol ar ôl cwblhau'r rhaglen.

Mae dewis o ddau lwybr:

Cyrsiau Cyflogadwyedd

Byddwch yn dysgu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer cyflogadwyedd gan gynnwys cyfathrebu, gwaith tîm a gwybodaeth am sector penodol. Drwy gymryd rhan mewn profiad gwaith, byddwch yn archwilio gwahanol yrfaeod tan i chi ddod o hyd i'r un delfrydol i chi, gan gael hyfforddiant wrth weithio.

Cyrsiau Sgiliau Byw

Gan ganolbwyntio ar wella hunanhyder ac annibyniaeth, byddwch yn gweithio i amserlen bwrpasol sy'n cyd-fynd â'ch anghenion. Byddwch yn dysgu sgiliau meddal sy'n ofynnol gan gyflogwyr, e.e. cyfrifoldeb, gweithio mewn tîm a hunan-ysgogiad.

Dolenni Defnyddiol

www.pluss.org.uk Cwmni buddiant cenedlaethol sy'n cefnogi miloedd o bobl sydd ag anableddau
www.coleggwent.ac.uk/ils Gwybodaeth am y cyrsiau SBA sydd ar gael yn Coleg Gwent



MAE LLAWER O'N MYFYRWYR SBA YN MYND YMLAEN I ADDYSG PRIF LIF, GAN GYNNWYS CYRSIAU ARLWYAETH A CHELF

MAE MWY NA 1,000,000 O BOBL MEWN CYFLOGAETH YNG NGHYMRU



GWEITHIO'N GALED, SGILIAU CYFATHREBU A RHEOLI AMSER YW'R TRI SGIL MEDDAL A WERTHFAWROGIR FWYAF GAN GYFLOGWYR

(ffynhonnell EMSI Q1 2018 Dataset)

Beth allaf i ei astudio, ac ymhle?

	Hyd	CK	PDBG	CN	PP
Sgiliau Byw'n Annibynnol - Cyflogadwyedd Lefel Mynediad 2	1 flwyddyn	✓	✓	✓	
Sgiliau Byw'n Annibynnol - Cyflogadwyedd Lefel Mynediad 3	1 flwyddyn	✓	✓	✓	✓
Sgiliau Byw'n Annibynnol Lefel Mynediad 1	1 flwyddyn	✓	✓	✓	✓
Sgiliau Byw'n Annibynnol Lefel Mynediad 2	1 flwyddyn	✓	✓		✓
Sgiliau Byw'n Annibynnol Lefel Mynediad 3	1 flwyddyn	✓	✓		✓
Sgiliau Byw'n Annibynnol Lefel Cyn Mynediad	1 flwyddyn	✓	✓	✓	✓
Sgiliau Byw'n Annibynnol - Annibynniaeth a Gwaith Lefel Mynediad 1	1 flwyddyn	✓			
Sgiliau Byw'n Annibynnol - Annibynniaeth a Gwaith Lefel Mynediad 2	1 flwyddyn	✓			
Sgiliau Byw'n Annibynnol - Rhaglen Bontio/Sgiliau Cwaith Ymarferol	1 flwyddyn	✓			
Sgiliau Byw'n Annibynnol - Astudiaethau Galwedigaethol Lefel Mynediad 3	1 flwyddyn	✓			

Ymgeisiwch ar-lein nawr ar www.coleggwent.ac.uk | admissions@coleggwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)



Campus key: PDBG - Parth Dysgu Blaenau Gwent / CK - Campws Crosskeys / CN - Campws Dinas Casnewydd / PP - Campws Pont-y-pŵl

